



Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

2013 dccc 5

Cyffredinol

19 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae i “cyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr â “parental responsibility” yn Neddf Plant 1989;

mae i “deunydd perthnasol” (“*relevant material*”) yr ystyr a roddir yn adran 18; ac mae i “deunydd perthnasol a eithrir” (“*excluded relevant material*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 7;

mae i “gweithgareddau trawsblannu” (“*transplantation activities*”) yr ystyr a roddir yn adran 3;

ystyr “oedolyn” (“*adult*”) yw person sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person nad yw wedi cyrraedd 18 mlwydd oed.

(2) At ddibenion adrannau 6, 7 ac 8, mae plentyn yn gymwys i ymdrin â'r mater o gydsyniad os yw'n ymddangos i berson rhesymol bod gan y plentyn ddigon o ddealltwriaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

(3) Mae'r canlynol yn berthnasoedd cymhwysol at ddiben y Ddeddf hon—

- (a) priod, partner sifil neu bartner;
- (b) rhiant neu blentyn;
- (c) brawd neu chwaer;
- (d) tad-cu/taid neu fam-gu/nain, neu wŷr neu wyres;
- (e) plentyn i frawd neu chwaer;
- (f) llys-dad neu lys-fam;
- (g) hanner-brawd neu hanner-chwaer;
- (h) cyfaill ers amser maith.

(4) At ddibenion y Ddeddf hon, mae person yn bartner i unigolyn arall os yw'r ddau ohonynt (p'un a ydynt o rywiau gwahanol neu o'r un rhyw) yn byw fel partneriaid mewn perthynas deuluol barhaus.

- (5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (3) drwy orchymyn.
- (6) Yn y Ddeddf hon—
- (a) mae cyfeiriadau at ddeunydd o gorff person byw yn cyfeirio at ddeunydd o gorff person sy'n fyw adeg y gwahanu,
 - (b) mae cyfeiriadau at ddeunydd o gorff person ymadawedig yn cyfeirio at ddeunydd o gorff person nad oedd yn fyw adeg y gwahanu, ac
 - (c) mae cyfeiriadau at gydsyniad datganedig yn cynnwys cydsyniad a roddwyd cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym.
- (7) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at drawsblannu yn cyfeirio at drawsblannu i gorff dynol ac yn cynnwys trallwysu.
- (8) At ddibenion y Ddeddf hon, nid yw deunydd i'w ystyried yn ddeunydd o gorff dynol os yw wedi ei greu y tu allan i'r corff dynol.